

papur



priordy



TŶ GWEDDI Y GELWIR FY NHŶ I

Geiriau yn yr Efengyl yn ôl Mathew 21:13 i'w gweld ar y wal y tu ôl i'r
pulpud a'r sedd fawr ym Mheniel, Foelgastell ger Cefneithin

Dewiswyd gan Miriam Wyrwoll. Gweler y rheswm am ei dewis y tu mewn

**Rhifyn 314
PAPUR MEDI 2018**



GAIR GAN EIN GWEINIDOG

Gair gan ein Gweinidog



Dyddiadur Awstralia

Diwrnod 1

Lifft gan Ann a Lyn o'r tŷ i Stesion Caerfyrddin. Philip, Elin a Sara yn y BMW, Beti-Wyn a'r cesys yn y fan! Dyna ddechrau ffein! Trên o Gaerfyrddin i Stesion Paddington, Llundain. Trên o Paddington i Heathrow. Y cesys yn ofnadwy o drwm ond ddim dros bwysau, diolch byth. Fy nghê i sydd drymaf - fel arfer! Setlo yn ein seddau ar awyren Singapore Airlines, ein cartref am y 13 awr nesaf. Merched ifanc prydferth a pherffaith eu golwg yn gweini'n siriol arnom.

Diwrnod 2

Glanio yn Singapore. Gan ein bod yn gorfod newid awyren yma, man a man manteisio ar gwpl o ddyddiau i weld y ddinas. Rhyfeddu at y ddinas fodern a phrydferth hon. Cyrraedd ein gwesty, ac yna gerdded ar hyd yr afon a'r awyrgylch yn fywiog a thrydanol. Llefydd bwyta ym mhobman a phawb yn treial ein denu ni i mewn i'w bwyty! Tanciau'r tu allan i bob bwyty a chrancod byw fel petai'n nhw'n apelio arnom i beidio â'u dewis i swper. Mae'n olreit bois, mae gas gen i fwyd y môr! Gwely cynnar.

Diwrnod 3

Dihuno am dri'r bore fel blodyn! Wrth gwrs, mae Singapore saith awr ar y blaen i Gymru - mae fy nghorff yn dweud wrtho i'i bod yn amser i wyllo *Pobol y Cwm*! Ceisio mynd yn ôl i gysgu. Ar gais Elin, chwilio am demlau Bwdaidd a Hindwaidd yn y ddinas. Dod o hyd iddynt yn eu gogoniant a'u hysblander yn llawn lliw ac aur. Waw, amêsing. Ofnadwy o boeth yma. Taith ar hyd yr afon a'r harbwr mewn cwch gan basio'r cerflun mawr o bysgodyn ag iddo ben llew'n poeri dŵr o'i gêg - ystyr yr enw Singapore yw 'Dinas y Llew.' Dysgu am ddatblygiad y ddinas ryfeddol hon a thipyn o'i hanes.

Diwrnod 4

Tywydd poeth iawn. Cerdded heibio i gerflun o Stamford Raffles, y gŵr a sefydlodd Singapore fel rhan o goloni Prydeinig. Man a man i ni ymweld â gwesty Raffles tra ydyn ni yma, ond och, y gwesty ar gau ar gyfer gwaith adnewyddu mawr. Dim *Singapore Sling* i ni'r tro hwn felly - Philip yn hynod o siomedig(!) Does dim un ymweliad ag unrhyw le'n gyflawn heb droi i mewn i'r amgueddfa leol. Cyfle gwych i ddal lan â

hanes Singapore a dysgu am ei thraddodiadau, a chan fod *air-con* yn yr amgueddfa, penderfynu cerdded o amgylch mor araf â phosib! Ymweld â'r *Sky Gardern* gyda'r hwyr am ddiod bach. Hwn yw'r adeilad uchel a modern (siâp cwch yn yr awyr) ar yr harbwr. Golygfeydd gwych a chyfle i ddiolch am dridiau arbennig yn Singapore. Tri pheth sy'n aros yn y cof am ein hymweliad - popeth yn lân, pawb yn gwrtais, pob man yn brydferth.

Diwrnod 5

Hedfan o Singapore i Melbourne. Dim ond saith awr o daith y tro hwn, a staff Singapore Airlines yn edrych ar ein hôl yn wych, chware teg. Glanio ym Melbourne am wyth y nos. Yno i'n cyfarfod mae Siôn Gough Hughes, Gweinidog y Capel Cymraeg, ynghyd â Christine Boomsma (Ysgrifennydd y Capel) a'i gŵr Fred. Croeso mawr a'r tri'n ddigon caredig i'n gyrru i'r fflat hyfryd yng nghanol Melbourne a logwyd ar ein cyfer gan y Capel. Gwely, gan gofio'n bod bellach wedi saethu dwy awr arall ar y blaen i Gymru!

Diwrnod 6

Siôn yn dod i gwrdd â ni a'n tywys (ar droed) i'r Capel Cymraeg. Bachgen o Landudno yw Siôn a fu'n gweinidogaethu yn ardal y Drenwydd am chwe blynedd cyn cael ei ddenu i Melbourne 18 mlynedd yn ôl. Capel bach o ran maint yw Capel Cymraeg Melbourne ond mae'r croeso'n enfawr. Oedfa Saesneg yn y bore a Siôn yn pregethu, paned ar ôl yr oedfa a sgwrs. Hynod o ddiddorol i glywed hanes rhai o'r aelodau, yn enwedig y rhai hŷn sydd wedi bod yma ers dros 50 mlynedd a mwy. Nifer ohonynt wedi symud gyda'u teuluoedd pan oedden nhw'n blant, ac eraill wedi'u magu yma a'u codi i siarad Cymraeg. Anhygoel. Cwrdd â'r tîm gweinidogaethol - yn ogystal â Siôn, mae Jim Barr a Peter Whitfield hefyd yn weinidogion yma a Zac Hanyn yn gweithio yn yr eglwys am flwyddyn ac yn canolbwynto ar y gwaith gyda'r plant. Tîm da. Mae'r eglwys yn cyflogi naw o bobl i gyd, yn cynnwys staff gweinyddol. Gwerthwyd darn o dir y drws nesaf i'r eglwys rai blynedd yn ôl ac adeiladwyd tŵr uchel o fflatiau ar gyfer myfyrwyr, ond bu'r Capel Cymraeg yn ddigon doeth i brynu llawr cyfan o'r adeilad newydd a'i droi'n ganolfan. Mae'n cynnwys swyddfeydd godidog ar gyfer y gweinidogion a'r staff gweinyddol, fflat gyda dwy ystafall wely, ystafelloedd cyfarfod gyda phont yn mynd o'r llawr yn syth i mewn i'r Capel. Agoriad llygad i weld y fath adnoddau. Oedfa Gymraeg yn y prynhawn a chyfle i Elin a Sara ganu deuawd. Profiad hyfryd i'r ddwy. Roedd hon yn oedfa arbennig i ddathlu 20 mlynedd Côr Cymraeg Merched Geelong. Cwrdd â Janette, arweinydd

y côr, a dysgu bod ei mam a'i thad yng nghyfraith yn byw yn Llansteffan. Mas i swper gyda'r hwyr i ddal i fyny gyda Siôn, y gweinidog - bu'r ddau ohonom yn gyd-fyfyrwyr am gyfnod yn Aber.

Diwrnod 7

Cyfle i ddod i 'nabod dinas Melbourne. Hawdd iawn teithio o'i hamgylch gan ei bod wedi'i hadeiladu ar system grid. Tramiau'n rhedeg yn rhad ac am ddim o un pen y ddinas i'r llall. Mynd ar y fferi draw i Williamstown, tref bysgota fach ddigon cysglyd. Neis i gael bach o lonydd - a hufen iâ!

Diwrnod 8

Dim llonydd heddi! Jim, un o'r gweinidogion yn ein tywys o amgylch am y dydd yng nghar y Capel (un o ddau gar sydd gan y Capel!). Teithio am awr a chyrraedd tref Ballarat. Dyma'r ardal y bu'r cyndadau'n cloddio ynddi am aur, a nifer o Gymry yn eu plith. Hanes hynod o ddiddorol. Cyfle i ymweld â Sovereign Hill, sef math o Sain Ffagan a godwyd i adrodd hanes mwyngloddio. Lle gwych. Oer iawn! Wedi gorfod prynu cap yr un, tra ydych chi yng Nghymru'n berwi yn y gwres! Chwilio am aur yn yr afon ond dim lwc y tro hwn! Rev Jim yn dipyn o gymeriad, ac yn grefftwr da. Mae'r Capel Cymraeg, dan arweiniad Jim, wedi adeiladu cwch rhwyfo. Adeiladwyd y cwch yn y festri gyda nifer o'r aelodau'n helpu a chafwyd cryn drafferth i'w gael allan drwy'r drws. Ond llwyddwyd yn y diwedd a'i gludo ar hyd yr afon Yarra i Williamstown. Enwi'r cwch yn 'Cariad'. Galw heibio ar y ffordd adref i Gapel Cymraeg Carmel, Ballarat, yr ail o ddau Gapel Cymraeg sydd yn nhalaith Fictoria. Wedi dotio ar y ffenestr liw yn y Capel i gofio am löwyr Cymru ac i ddiolch am eu gwaith. Dyma'r tro cyntaf erioed i mi weld ffenestr liw mewn capel yn portreadu glöwr. Mae fy niwrnod yn gyflawn!



Diwrnod 9

Astudiaeth Feiblaidd cyn cinio dan arweiniad Siôn. Trafodaeth wych ar Actau 12. Mas i ginio gyda ffrindiau'r Capel. Cyfle arall i ddysgu am eu hanes a phawb yn holi am bobl yng Nghymru! Mae'n amlwg eu

bod yn falch iawn o'u tras. Wâc o amgylch y ddinas ac ymweld â lôn AC/CD - lôn sydd wedi'i henwi ar ôl y band enwog ac yn llawn graffiti. Mae walydd arbennig wedi'u neilltuo ym Melbourne ar gyfer graffiti. Ai celf yw graffiti? Rwy'n cofio'r union gwestiwn yn codi gydag un o'r merched yn ystod eu cwrs TGAU Celf. Y consensws yn ein tŷ ni yw mai celf ydyw. Mae Sara yn un o ffans pennaf yr artist graffiti, Banksy. Gofynnwch iddi am ei hanes! Penderfynu mynd i ben Tŵr Eureka sy'n 975 troedfedd o uchder a llawr gwydr ar ei ben Golygfeydd gwych o'r ddinas, ond i chi beidio ag edrych dan eich traed!

Diwrnod 10

Siôn yn ein tywys ar daith arbennig i fyny i Ddyffryn Yarra heddi. Golygfeydd godidog. Syrpreis bach ar y ffordd, galw heibio yn Ramsey Street! Ydych chi'n ffans o'r opera sebon *Neighbours*? Y syrpreis nesaf oedd galw i mewn i ffatri siocled ac yno yn ein disgwyl roedd criw arall o'r Capel! Paned a mwy o sgwrsio a lot o chwerthin. Pinacly diwrnod, heb os, oedd y cyfle i ymweld â gwarchodfa sy'n gofalu am rai o'r anifeiliaid brodorol ac yn eu plith coalas (yn cwtsho), cangarws, walabiod, emiwiaid, pelicanod, hwyatbigau, amrywiaeth o adar ond yr uchafwynt i mi oedd y wombat! Cariad bach, roedd e'n magu tedi bêr! Am ddiwrnod grêt. Ac i goroni'r cyfan, cinio dydd Sul (ar nos Iau) gwerth sôn amdano ar aelwyd Christine a Fred Boomsma. Merch o Benmachno yw Christine a ymfudodd gyda'i rhieni i Awstralia pan oedd yn 10 oed. Mae'i Chymraeg yn wych a'i hymlyniad wrth y diwylliant Cymraeg ym Melbourne i'w ganmol yn fawr. Hithau a'i gŵr Fred sy'n gyfrifol am drefnu i'r Cymry ymweld â dathliadau amrywiol, fel y Gymanfa Ganu, Dathliadau Gŵyl Dewi a Phen-blwydd yr Eglwys Gymraeg. Bu Rhys Meirion ac Aled Wyn Davies yma adeg Gŵyl Dewi eleni, ac mae lluo o Gymry wedi bod yma ar eu gwahoddiad. Bu Christine yn arweinydd y Cymry ar Wasgar yn Eisteddfod Genedlaethol Y Bala a hithau sy'n gyfrifol bod taith i Awstralia'n rhan o Wobr y Rhuban Glas yn yr Eisteddfod Genedlaethol bob blwyddyn. Gwraig ryfeddol yn wir (ac yn gogyddes heb ei hail hefyd!).

Diwrnod 11

Ymhlith y miloedd yn crwydro'r ddinas fawr heddi, ac mae miloedd yma! Taro i mewn i Lyfrgell Fictoria a rhyfeddu wrth weld maint ac uchder yr ystafell ddarllen. Arddangosfa wych yno ar ddatblygiad 'Y Llyfr'. Da gweld y Beibl yn cael ei gydnabod yn rhan bwysig iawn o'r datblygiad. Taro i mewn i weld Eglwys Gadeiriol San Paul hefyd. Mae hanes yr Aborigini'n dechrau fy swyno ond, fel cymaint o frodorion mewn gwledydd eraill, roedd y rhain eto wedi gorfod brwydro i gadw'u

hunaniaeth. Synnu o ddarllen yn Eglwys San Paul fod 65,000 o Aborigini wedi cael eu lladd wrth i bobl o Ewrop a'r heddlu frwydro yn eu herbyn. Er i'r bobl wyn setlo yn Awstralia mae llawer mwy o'r Aborigini wedi marw o ganlyniad i glefydau a ddaeth o Ewrop ac o dorcalon. Arwydd yn Eglwys San Paul yn datgan: *'Heddiw, rydym yn edifarhau am ein rhan yn y stori ac yn chwilio am faddeuant. Rydym yn addo gweithio o blaid hawliau'r Aborigini yn eu gwlad. Mae Cristnogion yn credu bod cymod yn rhodd oddi wrth Dduw. Cymodi yw ein gwaith a'n cyfrifoldeb. Fe all gychwyn gyda chi a fi.'* A sôn am yr Aborigini, rwyf wedi prynu bwmerang! Un sydd wedi'i wneud gan lwyth lleol yn nhalaith Fictoria (ac nid yn Tsieina fel nifer fawr o'r swfenîrs!). Esboniodd y crefftwr a'i gerfiodd wrthyf ystyr holl symbolau celf yr Aborigini. Hynod o ddiddorol. Dewisais brynu un â phatrwm 'ffynhonnau dŵr' arno, un yn cynrychioli pob cam o daith bywyd. Mae delwedd y 'ffynnon' yn un llawn ystyr.

Diwrnod 12

Dydd Sadwrn. Bore tawel. Mynd i weld y 'footy' yn y prynhawn! Cwrdd â rhai o aelodau'r capel y tu allan i stadiwm ysblennydd yr MCC (Melbourne Cricket Club). Anferth o le. Ymuno i gefnogi tîm y *Melbourne Demons* yn yr ornest yn erbyn y *Western Bulldogs*! Os nad ydych yn gyfarwydd â phêl-droed Awstralaidd, mae fel gwylio rygbi heb reolau! A dweud y gwir, roedd yn syniad da hepgor y rheolau gan fod y gêm yn llifo heb i chwiban y dyfarnwr atal y chwarae bob dwy funud! Am hwyl, a gweld yr ochr arall i ambell aelod eglwys! Y sgôr derfynol: Demonaid Melbourne 119 - Bulldogs y Gorllewin 69. Buddugoliaeth. Mae'r sgôr yn swnio'n fwy fel sgôr gêm snwcer na phêl-droed!

Diwrnod 13

Y diwrnod mawr wedi dod a phwrpas ein hymweliad, sef pregethu yn yr oedfa i ddathlu pen-blwydd Capel Cymraeg Melbourne yn 165 oed. Cyrraedd y capel yn gynnar, yn ôl fy arfer, er mwyn gwneud yn siŵr bod y dechnoleg yn gweithio! Ymhen dim, mae llawr y capel yn llawn ac erbyn i'r oedfa gychwyn am 11, mae nifer yn sefyll yn y cefn.. Côr Meibion Melbourne yn canu a hefyd Gôr Excelsis. Eitemau gwych iawn ganddynt - pob cân yn y Gymraeg a'r ynganu'n berffaith, er mai bach iawn ohonynt sy'n siarad Cymraeg. Wedi'r bregeth, plant yr Ysgol Sul yn ymuno â'r oedfa. Rhai cyflwyniadau cyn diweddu'r oedfa - y capel yn hael iawn eu cefnogaeth ariannol i'r ddau gôr. Cyfle i ninnau fel teulu gyflwyno llechen arbennig i'r Eglwys ar achlysur ei phen-blwydd arbennig. Cinio dydd Sul traddodiadol a hynod o flasus i bawb yn y

festri a Siôn a Jim (y ddau weinidog) a minnau'n cael y fraint o dorri cacen y dathlu. Ond nid oedd hyn yn ddigon o achlysur i Gôr Meibion Melbourne a dyma wahoddiad i ymuno â nhw yn y dafarn leol ar gyfer prynhawn o ganu Cymraeg! Wel, am hwyl.

Diwrnod 14

Hedfan i Sydney'n gynnar yn y bore a glanio ymhen rhyw awr a chwarter. Aros mewn ardal o'r enw The Rocks, ger harbwr Sydney. Troi'r gornel a gweld y Tŷ Opera ysblennydd o'n blaenau. Methu â chredu ein bod yma, a ninnau wedi gweld yr adeilad eiconig hwn gymaint o weithiau ar y teledu. Cinio cyflym a cherdded yn sionc iawn o amgylch yr harbwr at y Tŷ Opera gan ein bod wedi trefnu taith o'i gwmpas. Hanes rhyfeddol iddo. Gosodwyd cystadleuaeth fyd-eang i gynllunio Tŷ Opera i Sydney. Enillwyd y gystadleuaeth gan bensaer o Ddenmarc. Bu 10,000 o grefftwyr yn gweithio i godi'r Tŷ rhwng 1958 a 1973. Bu anghydweld rhwng y pensaer a'r llywodraeth a oedd yn ariannu ac yn anffodus, gadawodd y pensaer ei waith hanner ffordd drwy'r prosiect. Ddychwelodd e ddim fyth i weld y Tŷ Opera wedi'i gwblhau. Rhyfeddu o weld bod y to gwyn mewn siâp hwyliau wedi'u gorchuddio gan deiliau gwyn o Sweden. Taith ddiddorol iawn.

Diwrnod 15

Codi'n gynnar bore 'ma, cyn y tri arall oherwydd fy mod wedi trefnu cerdded Pont Harbwr Sydney - nid cerdded drosti ond dringo drosti! Cyrraedd y ganolfan a threulio awr yn gwisgo offer arbennig a chael ein paratoi ar gyfer y daith. A dyma gychwyn arni! Cul, uchel a gwyntog, yn enwedig wrth ddringo pedair ysgol serth! Ond yn gwbl ddiogel gan ein bod wedi'n clymu wrth harnes ar hyd yr holl daith. Cyrraedd copa'r bont a'r olygfa'n anhygoel. Gweld allan i'r môr ar y naill ochr, ac mor bell â'r Mynyddoedd Glas ar yr ochr arall. Yr arweinydd yn dweud ei bod yn well dringo yn y gaeaf gan fod yr olygfa'n gwbl glir (dim tARTH). Dwy faner ar ben y bont - baner Awstralia a baner Talaith New South Wales. Y baneri'n cael eu newid bob tri mis oherwydd eu bod yn cael eu chwythu'n rhacs yn y gwynt! Hapus iawn fy mod wedi cwblhau'r her bersonol hon. A beth well wedi'r dringo na gwlychu'r traed ym môr traeth chwedlonol Bondi! Ydych chi'n gwyllo'r rhaglen *Bondi Recue* sy'n dilyn hanes yr achubwyr bywyd (lifeguards) ifanc, heini a golygus ar draeth Bondi? Roeddwn wedi hanner meddwl esgus llewygu ar y traeth er mwyn cael fy achub gan un ohonynt!

Diwrnod 16

Taith o amgylch yr harbwr mewn cwch. Hamddenol a diddorol. Roedd

14 o ynysoedd yn arfer bod yn ardal yr harbwr. Cael bach o fraw o glywed mai enw un ohonynt yw Ynys Shark! Rhyddhad mawr o glywed ei bod wedi'i henwi oherwydd ei bod yn ymdebygu o'r awyr i siâp siarc ac nid am fod siarcod yn ei hamgylchynu. Diddorol clywed am hanes yr Aborigini a oedd yn arfer byw mewn ogofau ar hyd yr harbwr a'r afon flynyddoedd maith yn ôl. Wâc fach cyflym i fyny'r bryn at yr arsyllfa a gweld yr haul yn machlud dros y ddinas hyfryd hon cyn ymadael am y maes awyr a hedfan 'nôl i Melbourne.

Diwrnod 17

Wedi blino'n lân. Llwyddwyd i gyrraedd Amgueddfa Melbourne a llusgo'n hunain o amgylch braidd, ond yn gwerthfawrogi'r hanes a'r arddangosfeydd yn fawr, yn enwedig un arddangosfa arbennig sydd yno trwy gydol mis Gorffennaf yn cofio a diolch am gyfraniad y gwagedd Aborigini i'w cymunedau. Enw'r arddangofsa yw '*Because of her, we can*'. Swper hynod o flasus wedi'i baratoi gan Zac, bachgen ifanc 21 oed a gweithwr plant Eglwys Gymraeg Melbourne sydd yno am flwyddyn tra'i fod yn astudio am radd mewn Diwinyddiaeth. Mae Zac yn byw mewn fflat hyfryd sy'n rhan o ddatblygiad newydd y Capel (yn ardal y swyddfeydd). Mae'n llawn egni a brwdfrydedd, ac yn ogystal â chael pryd o fwyd hynod o flasus, cawsom sgwrs ddiddorol iawn a lot o drafod syniadau. Rwy'n credo efallai y bydd yr hen Zac yn ymweld â Chymru rywbryd yn y dyfodol agos - ac wrth gwrs, bydd rhaid rhoi croeso iddo yn Y Priordy os digwydd iddo ddod i'r gorllewin!

Diwrnod 18

Seibiant tan chwech o'r gloch! Noson fawr i Elin a Sara heno. Llwyddodd Siôn y gweinidog i gael tocyn yr un iddynt weld 'Pink' yn perfformio yn Arena Rod Laver, daflad carreg o'n fflat ni. Ydych chi erioed wedi clywed am 'Pink'? Na? Na ninnau chwaith, ond yn ôl y 30,000 o bobl sydd wedi llenwi'r stadiwn i'r ymylon heno, mae amlwg bod hon yn gantores boblogaidd iawn! Buom yn cerdded yn groes i 28,998 ohonynt ar lwybr yr afon Yarra wrth fynd i gasglu'r merched ar ddiwedd y sioe!

Diwrnod 19

Codi'n gynnar y bore 'ma i gwrdd â rhai o'r aelodau dan y 'clociau' yng ngorsaf reilffordd Flinders Street. Dyma orsaf reilffordd hynaf Awstralia, ac mae'r adeilad yn un ysblennydd iawn gyda'i chromen amlwg y gellir ei gweld ar draws y ddinas i gyd. Dyma'r orsaf fwyaf prysur yn hemisffer y de hefyd. Mae 1,500 o drenau a 110,000 o deithwyr yn ymweld â'r orsaf bob dydd. Mae ganddi blatfform anferth,

708metr o hyd, y pedwerydd hiraf yn y byd. Ie, cwrdd dan y clociau sylwch, ac nid y cloc. Mae rhes o glociau sy'n dangos yr amser mewn gwledydd gwahanol. Mae'n debyg fod y gosodiad '*meet you under the clocks*' yn un cyfarwydd iawn i drigolion y ddinas hon! Ac yna dan y clociau roedd y criw ffyddlon yn barod i'n tywys eto i Ddyffryn Yarra, y tro hwn ar gyfer picnic yr Eglwys ym Mharc Llyn Emrallt. Ond er mwyn cyrraedd y parc, rhaid oedd teithio ar '*Puffing Billy*' sef trên stêm. Wel, am hwyl yn dringo drwy'r mynyddoedd, yn canu ar y ffordd wrth fwynhau'r golygfeydd godidog. Cyrraedd y llyn ac ystafell wedi'i llogi ar ein cyfer (gan ei bod yng nghanol gaeaf). Buan y bu imi fagu gwres wrth gael fy nenu i gemau gyda phlant yr Ysgol Sul. Lle braf, gydag adar lliwgar yn hedfan o'n hamgylch.

Diwrnod 20

Bore Sul a thaith gerdded fach yn awel ffres y gaeaf i'r Capel. Pregethu yn Saesneg yn y bore. Elin a Sara'n helpu mas yn yr Ysgol Sul gan eu bod wedi gwneud ffrindiau mawr â'r plant dros gyfnod ein hymweliad. Paned yn y festri a



rhywbeth bach i'w fwyta cyn cychwyn am oedfa Gymraeg y prynhawn. Chwerthin yn dawel fach fod rhai o'r plant wedi argyhoeddi'u rhieni y dylent aros ymlaen ar gyfer yr oedfa Gymraeg hefyd (er nad oeddent yn siarad Cymraeg) er mwyn treulio un prynhawn bach arall yng nghwmni Elin a Sara! Bu'r ddwy'n canu eto yn yr oedfa hon. Cynulleidfa werthfawrogol. Canu cynulleidfaol da! Te p'nawn yn y festri wedi'r oedfa a chyfle i ddiolch. Yr Eglwys yn ddiolchgar tu hwnt i ni am dderbyn y gwahoddiad i ddod i Melbourne a threulio amser yn eu cwmni. Roedd clywed hyn yn brofiad rhyfedd oherwydd, yn wir i chi, ein lle ni yw diolch am daith a fydd yn aros yn y cof am byth. Does dim cywilydd arnom ddweud fod dagrau wrth ffarwelio â nhw heddi. Daethom yn ffrindiau da mewn byr amser. Anghofiwn ni fyth eu caredigrwydd i ni fel teulu. Gobeithio y cawn gyfle i dalu'r gymwynas yn ôl ryw ddiwrnod. Ond nid oedd ein diwrnod drosodd eto! Ymuno â Sara a rhai o griw iau'r Capel ar gyfer un oedfa arall mewn theatr leol,

wedi'i threfnu a'i harwain gan Eglwys 'Hillsong'. Mae Eglwysi 'Hillsong' i'w cael ar hyd a lled y byd a dyma gyfle i ymuno. Wel, rwy'n credu mai fi oedd un o'r rhai hynaf yn yr oedfa. Cannoedd o bobl ifanc. Band proffesiynol yn arwain y mawl, a phregeth 45 munud. A dyma'r bedwaredd oedfa yn y theatr y diwrnod hwnnw. Yn dal i dreial cymryd y peth i mewn a dweud y gwir.

Diwrnod 21

Pacio. Mae'r cesys bron â bostio! Digon o brops ar gyfer Cwrdd Plant mis Medi. Gwylwch y gofod blant! Hwyl fawr Awstralia. Teg edrych tuag adref.

Gweddiwn

Dduw'r daith,
yn ein cerdded gyda thi,
boed i'r adegau hyn o orffwys
fod yn hafanau yn dy gwmni.
Rho egni a heddwch,
er mwyn i ni, y munudau hyn,
gael nerth a chynhaliaeth
ar gyfer y daith



Amen.



**DIWRNOD HEDDWCH RHYNGWLADOL
DYDD GWENER 21 MEDI 2018 - 5.00**



**Cymdeithas y Cymod a Chyngor y Dref
yn trefnu cyfarfod ar y cyd y tu allan i Neuadd San Pedr**



DRWS AGORED



BORE IAU 27 Medi 2018 – FESTRI'R PRIORDY
Paned a Bisgedi am 10.30 / Myfyrdod Byr am 11
Croeso cynnes i bawb o bob capel ac eglwys

CRISTION

Cyhoeddiad deufisol – ar ei newydd wedd!

Am gopi – Cysylltwch â Sulwyn Thomas



DARLLENIADAU

Mis Gorffennaf	Darlleniad
Wythnos 1	Exodus 3: 1-13
Wythnos 2	Exodus 12:1-14
Wythnos 3	Exodus 14:19-31
Wythnos 4	Exodus 16:2-15
Wythnos 5	Exodus 17:1-7

GŴYL MAWL MEDI Y TABERNACL, CAERFYRDDIN – DYDD SUL 30 MEDI 2018	
<i>Y Bore am 10</i> Oedfa o Fawl i'r Plant a'r Oedolion dan arweiniad Euros Rhys Evans	<i>Y Prynawn am 2</i> Oedfa Bregethu gyda'r Parchedig Dyfrig Rees
YMARFERION Plant Bore Sul 23 Medi 2018 – Festri'r Tabernacl – 10 o'r gloch gyda Nicki Roderick Oedolion <i>Nosweithiau Sul 9 / 23 Medi – Capel y Tabernacl – 7 yr hwyr</i> gyda Helen Gibbon	
Emynau i'w Canu Plant 4 Dewch, blant bychain 2 Cariad Crist 8 Tyred, Iesu 9 Llawenydd a gewch 11 Cristion bychan ydwyf Oedolion 17 Tyddewi 19 Sirioldeb 20 Ombersley 21 Pen Uchaf 25 Iesu yw'r Iôr 15 Glyn Peris 23 Blaenwern <i>Bydd BBC Radio Cymru'n recordio Caniadaeth y Cysegr</i> yn Oedfa'r Bore <i>Rhaglenni Cymanfa - Cysyllter â Meinir Lloyd</i>	

MEINIR YN DERBYN Y FEDAL

AR Y DYDD MAWRTH yn yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaerdydd derbyniodd Meinir Lloyd Fedal Goffa Syr T H Parry-Williams sy'n cael ei chyflwyno'n flynyddol i unigolyn am wneud cyfraniad gwirioneddol yn eu hardal leol, gyda phwyslais arbennig ar weithio gyda phobl ifanc.



Gwyddom yn dda ba mor haeddiannol yw Meinir o'r fedal arbennig hon. Ers dod i fyw i Gaerfyrddin ym 1972 hyfforddodd blant a phobl ifanc dirifedi yn ein bro – llawer ohonynt yn dod i'r brig mewn eisteddfodau ac yn yr Wyl Gerdd Dant ac yn disgleirio



fel perfformwyr mewn nosweithiau cerddorol a chyngherddau amrywiol..Yn ogystal, bu'n hyfforddi myfyrwyr y Drindod, parti bechgyn Bois y Dderwen a merched Telynau Tywi,

Cawsom hefyd ein diddanu ganddi fel cantores a thelynors dros y blynyddoedd – o ddyddiau pan oedd yn un o sêr canu ysgafn y 60au ac yn wyneb cyfarwydd ar raglenni teledu'r cyfnod a'i stôr o ganeuon yn cynnwys y bythol wyrdd *'Watshia Di Dy Hun!'*

Yma, yn y Priordy, wrth gwrs, buom yn ffodus iawn i'w chael fel organydd a threfnydd cyngherddau a chymanfaoedd canu.

Roedd y seremoni yng ngofal y Parchedig Ddr R Alun Evans un o gymrodwr yr Eisteddfod, a chyflwynwyd y fedal gan Eifion Lloyd Jones, Llywydd Llys yr Eisteddfod. ,



Hyfryd oedd clywed cyfarchion ar gân gan Leisiau Llain Delyn , yn cynnwys aelodau a hyfforddwyd gan Meinir o ddyddiau cynnar ac yn canu'i threfniant o'r alaw werin *Y Gwydyr Glas*, Andrew Rees a'i ddatganiad o *Gân y Celt* – y geiriau gan Peter

Hughes Griffiths a'r gerddoriaeth gan Meinir a Pharti Merched y Priordy'n canu Clod i'r Arglwydd gan Rhys Nicholas ar yr alaw a gyfansoddwyd gan Meinir. A da yw nodi bod rhai o ferched Parti'r Priordy yn blant i aelodau Lleisiau Llaindelyn!.

A dyma gloi gyda chywydd arbennig y Prifardd Tudur Dylan Jones I Meinir. Cafodd ei ddatgan ganddo yn ystod y seremoni ac mae'n crynhoi cyfarchion pob un ohonom i un sydd wedi cyfrannau cymaint:

I Meinir Lloyd, ar dderbyn Medal Goffa T.H. Parry-Williams

O Gyffylliog daeth hogan,
yr orau i gyd, i greu'r gân,
hyn o gyfoeth a gafwyd,
cael ei hiaith o fryniau Clwyd
am mai seiliau Maesaleg
ydyw seiliau'r dechrau'n deg.

Wyt awen afon Tywi,
a thrwy hyn, dy delyn di
sy'n ddihafal ei halaw,
a heddiw deil yn ddi-daw;
arwr T.H. nawr wyt ti,
arwr ymhlith y cewri.

Yn ei gwaith mae'n berffeithydd
yna os wyt yn un sydd,
yn wael mewn parti, neu'n waeth,
anweddus dy donyddiaeth,
o raid fe'th gosbir wedyn
os na watshi di dy hun.

Yma'n awr yn fam a nain,
yn wraig heb gyrraedd trigain!
mewn Gŵyl, mewn llais, mewn golwg,
yn un a ddeil yn ddi-wg,
ein brenhines gynnes, gu,
a thalent mwya'i theulu.

Rhoi llafur i'r bur hoff bau
wna Meinir yr emynau,
hon drwy'i hoes o hyd ar ras
yw Meinir y gymwynas,
codi arian, cadeirio,
byw ar waith i'w gwlad a'i bro.

Gwlad yw, o Glwyd i Dywi,
sydd yn galw d'enw di,
ti yw'r wên, ti awen wâr
Hewl Waun Dew, halen daear,
ti ydyw pin-up Tudur,
arwr y llanc, a'r holl wŷr.

Am yr hwyl, am yr alaw,
ie am ddoe, ac am a ddaw,
fan hyn y cyfan wnawn ni
yw dweud diolch heb dewi,
ac yn dy law mae'r gân dlos,
iaith ein hiraeth, yn aros.

Beth am droi at
Wefan yr Undeb?
www.annibynwyr.org



ANRHYDEDDU MEINIR




GAIR O DDIOLCH

Dymuna Meinir Lloyd ddiolch o waelod calon i aelodau a ffrindiau'r Priordy, yn enwedig ein gweinidog Y Parchedig Beti Wyn James, am bob cefnogaeth, eu cyfarchion a'u llongyfarchiadau ar achlysur derbyn Gwobr Goffa Syr TH Parry Williams yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni. Diolch hefyd i Barti Merched Capel Y Priordy am ganu'r emyn '*Clod i Dduw*' mor arbennig yn ystod y seremoni.

PAPUR PRIORDY

Daeth yn amser i ni apelio am gyfraniadau i Gronfa'r Papur.



Mae holl gostau'r Papur yn rhesymol iawn a gwerthfawrogir pob rhodd i dalu am rifyn ohono ar y tro. Mae'n destun balchder mai dyma fu'r drefn gyda'r Papur o'r dechrau'n deg.

Os ydych yn dymuno cyfrannu, yna gallwch gysylltu â Philip Jones, Trysorydd y Papur, os gwelwch yn dda.



Cinio Dydd Sul yr Ofalaeth

Dydd Sul, 21 Hydref 2018

yng

Ngwesty'r Llwyn Iorwg, Caerfyrddin
am 12.30 o'r gloch yn brydlon.

Pris: £18 y pen

Enwau ar y daflen yn y cyntedd cyn gynted â phosib os gwelwch yn dda.

Ymholiadau pellach i Beti-Wyn



Y GYMDEITHAS - 2018-19

Cyfarfodydd am 7 ar Nos Lun yn y Ffestri oni nodir yn wahanol
2018

Dyddiad	Siaradwr	Darllenydd	Paratoi'r Te
1 Hydref	Elinor Wyn	Gwyn Bowyer	Eirlys Jones Myfanwy Jones
5 Tachwedd Cana a Bancyfelin yn ymuno â ni	Alun Wyn Bevan	Dennis Jones	Rhyswen Michael Rhian Jones
6 Rhagfyr (lau) Ymuno â'r Tabernacl	Alun Harries Clerc Cyngor Tref Caerfyrddin		

2019

6 Ionawr (Sul)	Cwrdd yr Ofalaeth gyda Catrin Heledd a'r Teulu		Is-bwyllgor Bwyd
4 Chwefror Y Tabernacl yn ymuno â ni	Richard Morgan Aberystwyth	Adrian Evans	Janet Davies Gloria Evans
4 Mawrth	Gŵyl Dewi		Y dynion yn paratoi cawl
8 Ebrill	Ymweliad â'r Mosg		Swper yng Ngwesty'r Llwyn lorwg
13 Mai	Llyr Huws Gruffydd, AC	Peter H Griffiths	Nansi Hayes Bronwen Wilkins
23 Mehefin (Sul)	Pererindod yr Ofalaeth		

GWASANAETH DINESIG YN Y PRIORDY

Bore Sul 1 Gorffennaf 2018



CYDIODD ein Gweinidog, a Chaplan y Maer a'r Faeres, Y Cynghorydd Emlyn Schiavone, a'i brod Tina, yn thema'r afon wrth draddodi'i neges ar ddechrau blwyddyn ddinesig arall yn hanes ein tref.



Gwyddom yn dda am bwysigrwydd yr afon mewn cynifer o'n pentrefi a'n trefi yng Nghymru, fel yng Nghaerfyrddin a'r fro lle mae'r Afon Tywi'n llifo ac yn ymdroelli – yr afon fwyaf sy'n

gyfangwbl yng Nghymru. Cyfeiriodd at y pleser mawr a gâi un o'r plant wrth daflu

cerrig llyfn i'r afon fel eu bod yn llamu droeon ar wyneb y dŵr, gan achosi crychau – rhai bach a mawr. Mae teulu a phobl neilltuol wedi taflu cerrig i ddyfroedd ein bywydau ni dros y blynyddoedd a'n cyffroi. Ond Duw a ryddhaodd y garreg fwyaf, sef Iesu, un sy'n dylanwadu cymaint ar ein byd. Ac onid ein priod waith ni heddiw, beth bynnag yw'n safle, yw parhau i geisio bownsio'r cerrig fel eu bod yn sboncio ar afon bywyd gan effeithio'n gadarnhaol a dyrchafol ar eraill.



Darllenwyd o'r Beibl gan y Maer a chyflwynwyd y Weddi gan Luned Thomas.

Braf oedd cael cwmni'r to iau yn y gwasanaeth cyn iddynt fynd i'w Parti Diwedd Tymor




yn y parc cyfagos gyda'u rhieni a'u hathrawon. Mwynhaodd y plant ein Gweinidog yn cyfeirio at y Maer fel 'Capten Tîm', a ninnau yng nghanol cyffro Cwpan y Byd ar y pryd, gan esbonio mai Iesu yw capten y tîm rydyn ni fel Cristnogion yn perthyn iddo..

Daeth y fraint o gyflwyno anrheg i'r Maer i gofio'r achlysur i ran Marged, un o blant yr Ysgol Sul.

Roedd rhai o'r emynau a gandwyd yn gweddu i'r dim i weiddiau'r Maer, brodor o Gastellnewydd Emlyn, sef *Fe chwythodd yr awel ar Gymru drachefn'* gan **John**



Gwilym Jones, un o feibion Parc Nest, *O Feistr! Gad im' atat ddod* gan **E Keri Evans**, ail weinidog y Priordy ac un o deulu'r Maer a *Mi wn fod Fy Mhrynwr yn fyw* gan Thomas Jones ar y dôn *Trewen* o waith y cerddor **D Emlyn Evans**, brawd E Keri Evans.



Y casglyddion oedd Jac, Anna, Beca a Tomos. Roedd Iwan Evans wrth yr organ a'r cyhoeddiadau yng ngofal Eirlys Jones.



Yn ystod y gwasanaeth hefyd anrhegwyd Mair Baston gan ein Gweinidog fel arwydd o'n diolch iddi ar adeg ei hymddeoliad fel gofalwr y blodau am flynyddoedd lawer.

Hyfryd oedd cloi'r gwasanaeth arbennig hwn drwy gydgyuno. Yn cynorthwyo'r Gweinidog gyda'r elfennau roedd Chris Lloyd, Gwynfor Davies, Philip Jones a Gareth Gravell.

DIOLCH i'n Gweinidog am drefnu'r gwasanaeth a dymunwn y gorau i'r Maer a'r Faeres a Chyngor Tref Caerfyrddin yn ystod y flwyddyn hon.

Yn dod i Gymru eleni

CYNHADLEDD HANES HEDDWCH 2018

Dydd Gwener 21 Medi 2018

Y Deml Heddwch, Parc Cathays, Caerdydd

Dydd Sadwrn 22 Medi 2018

Adeilad Morgannwg, Parc Cathays, Caerdydd

Manylion pellach – cysyllter â Mererid Hopwood



SUL Y MAER



AGOR Y LLYFR



**PEN-BLWYDD
ARBENNIG
SIÂN DALIS
DAVIES
YN
90 OED!**

Tudalen

Ieuenctid@Priordy

Croeso'n ôl i bawb wedi'r haf!

Mabolgampau

Llongyfarchiadau i bawb a wnaeth mor wych yn y mabolgampau ac i Luned am drefnu.

Llongyfarchiadau i bawb o PIP a lwyddodd yn eu harholiadau dros yr haf. Pob lwc i bawb ar gychwyn tymor newydd.

Dyddiadau'r mis:

Medi 6

Oedfa Blant a phobl ifanc gyda Beti-Wyn a'r band!

Medi 9

Ysgol Sul (PIP i aros lan)

Medi 16

Ysgol Sul a PIP yn y festri

Medi 23

Ymarfer Gŵyl Mawl Medi. Festri'r Tabernacl am 10. Dim Ysgol Sul na PIP

Medi 30

Gŵyl Mawl Medi yn Y Tabernacl am 10

Hwyl am y Tro
Beti-Wyn



Gofalaeth Y Priordy, Cana a Bancyfelin

Gŵyl Miri Medi



Dydd Sadwrn, 15 Medi 2018

2 o'r gloch

Caeau a Chlwb Rygbi'r Quins,
ABERGWILI

Rasus a gêmau
i'r plant



Barbaciw
Blasus i bawb

AWSTRALIA!



TUDALEN BLAEN

Rheswm Miriam Wyrwoll dros ddewis *'Tŷ Gweddi y gelwir fy nhŷ i'*

Lle sy'n agos iawn i'm calon yw'r capel bach yma yn Foelgastell, Cefneithin. Dyma'r lle roedd fy rhieni yn addoli ar y Sul a'r lle cefais i, fy nwy chwaer a dau frawd ein codi i fynychu oedfa a'r



Ysgol Sul bob wythnos. Byddem yn cerdded y ddwy filltir, beth bynnag y tywydd, gan nad oedd Mam yn gyrru wedi 'nhad farw'n ifanc ym 1960. Yr wir, rwy'n cofio un bore Nadolig - yr oedfa am 8 o'r gloch y bore, a Mam wedi cysgu'n hwyr. Roedd rhaid codi ar frys a mynd i'r capel, a chyrraedd pan oedd yr oedfa'n dod i ben!



Saer Coed oedd fy nhad a brith gof sy gen i ohono gan iddo farw pan o'n i ond yn bump oed. Rwy'n browd iawn o ddweud mai fe oedd yn gyfrifol am adeiladu'r pulpud a'r sedd fawr ym Mheniel. Ac mae'r geiriau ***Tŷ Gweddi y gelwir fy nhŷ i'*** y tu ôl iddynt.

Dw i o hyd yn teimlo agosatrwydd mawr pan rwy'n cerdded i mewn trwy'r drws, gan wybod fod fy nhad wedi tywallt chwys a gwaed er mwyn sicrhau dyfodol i'r capel bach. Mae nifer yr aelodau wedi lleihau dros y blynyddoedd ac erbyn hyn, dim ond pum aelod sy'n mynychu oedfa ar y Sul. Er hyn, mae'r drysau'n dal ar agor ac oedfa bregethu'n cael ei chynnal yn achlysurol. Mae'n hyfryd dweud bod Peniel yn dal i gydio'n dynn ynom fel teulu, gyda Tom, fy mrawd yn Ysgrifennydd, a Meinir, fy chwaer yng nghyfraith, yn Drysorydd. Tristwch dweud mai mater o amser sy nes i ddrysau Peniel agor am y tro olaf gan fod yr ychydig aelodau'n heneiddio a neb i gymryd eu lle.



HAELIONI ABSOLIWT

Haelioni cymdeithasau Cymreig Gogledd America, sef Sefydliad a Chymdeithas Cymru America, ac Undeb Cymru a'r Byd yma yng Nghymru, sy'n gyfrifol bod cyfieithiad cwbl arbennig o lyfr nodedig y bardd Menna Elfyn am fardd arall, Eluned Phillips, wedi'i lansio yn Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd.

Bardd arall, Elinor Wyn Reynolds fu'n gyfrifol am y trosiad- "*Absolute Optimist*" a chyflwynwyd y gwaith i Myra Thomas Lawrence, ffrind mawr i Eluned Phillips ac un o gymwynaswyr pennaf Cymdeithasau Cymreig Gogledd America ac Undeb Cymru a'r Byd. Bu Eluned yn ymweld â Myra droeon cyn ei marwolaeth ac roedd yn siom mawr i Myra na fedrai ddarllen cyfrol Menna. Mae Myra dros ei naw deg oed erbyn hyn ac wedi colli'i golwg.

Daeth Llyfrau Llafar Cymru i'r adwy a bu Menna'n recordio'r cofiant gwreiddiol, "*Optimist Absoliwt*" yn arbennig ar gyfer ei drosglwyddo i Myra Thomas Lawrence ym Montecito, California. Danfonwyd, hefyd, recordiad o Eluned ei hun yn darllen ei hunangofiant rai blynyddoedd ynghynt. Cais oedd hyn gan y Sefydliadau er mwyn i'r aelodau ddangos eu gwerthfawrogiad i Myra am ei haelioni tuag at y mudiadau a chanddynt gysylltiadau â Chymru. Canlyniad y recordio oedd i'r gwasanaeth, a leolir yng Nghaerfyrddin, dderbyn cyfraniad o £1,000 tuag at barhau â'r gwaith o ddarparu deunydd ar gyfer pobl â nam ar eu golwg.

'Roedd yn bleser pur cael bod yn rhan o'r ymarferiad annisgwyl yma', meddai Sulwyn Thomas, Cadeirydd Llyfrau Llafar Cymru. 'Bu Menna'n darllen ei llyfr mewn nifer o sesiynau recordio. Danfonwyd y cryno ddisgiau at Will Fanning (Llywydd, Cymdeithas Cymru-Gogledd America) sy'n byw yn Los Angeles ac yntau'n teithio dros gan milltir i Montecito a throsglwyddo'r cyfan i ddwylo Myra. Yn ôl y sôn roedd hi wrth ei bodd yn clywed y darlleniad, a gwrando ar Menna'n adrodd hanes lliwgar a dadleuol Eluned. Eleni roedd yn dda gweld merch arall o Gaerfyrddin, Elinor Wyn, yn creu campwaith o addasiad. Y dasg nesaf i ni yw recordio'r gwaith diweddaraf a danfon pecyn arall ar draws Môr Iwerydd. Diolch i'r Sefydliadau am gyfraniad sylweddol.'

Daeth cyfle ar ddiwedd y lansiad i gael llun. Ynddo mae Will Fanning a Sulwyn Thomas (cefn). Phil Davies (Ysgrifennydd Sefydliad Cymru

- Gogledd America) ,Menna Elfyn ac Elinor Wyn Reynolds, a Mansel Thomas (Llyfrau Llafar Cymru).



Yn ystod yr wythnos eisteddfodol cafodd swyddogion y Gymdeithas gyfle i gyfarfod â Rhian Evans, a fu'n gyfrifol am ddechrau recordio llyfrau sain yn ôl ym 1979, sef Cynllun Casetiau Cymraeg - rhagflaenydd Llyfrau Llafar Cymru.



LLYFRAU LLAFAR CYMRU



SIARAD CYFROLAU



PERERINDOD YN YMWELD Â'R PRIORDY

**Eglwysi Bedyddiedig Bethabara, Blaenffos, Penybryn a
Seion Crymych a'u Gweinidog
Y Parchedig Roger Morgan**



OEDFA GYDA'R PERERINION

Ar fore Sul, 29 Gorffennaf, braf oedd croesawu cyfeillion o Eglwysi Bedyddiedig Bethabara, Blaen-ffos, Penybryn a Seion Crymych ynghyd â'u Gweinidog, Y Parchedig Roger Morgan, i'r oedfa. Roedd y pererinion ar daith i ardal Merthyr ac wedi galw gyda ni ar y ffordd i gydaddoli.

Roedden ni hefyd yn yr un oedfa'n croesawu'n Gweinidog wedi iddi ddychwelyd atom ar ôl treulio rhai wythnosau gyda'i theulu yn Awstralia.

Yn ei neges cydiodd ein Gweinidog yn thema Tywyllwch a Goleuni. Dyw'r tywyllwch ddim yn drech na'r goleuni ac mae'n bwysig i ni fod yn gyfryngau goleuni Crist ac ymdrechu i oleuo corneli tywyll ein byd. Y profiad o weld ffenestr liw yng Nghapel Cymraeg Carmel, Ballarat yn nhalaith Fictoria î gofio am löwyr Cymru a fu yno'n cloddio am aur ar ôl gadael tywyllwch y pyllau glo a'i symbylodd i ddilyn y trywydd hwn.

Cymerwyd rhan yn yr oedfa hefyd gan Y Parchedig Roger Morgan a Glenys Thomas (Y Priordy). Roedd Heather Williams wrth yr organ. Y cyhoeddwr oedd Eirlys Jones.

Mwynhawyd paned gyda'n gilydd yn y Fetsri cyn i'r Pererinion ailafael yn eu taith. Diolchodd eu Gweinidog am y croeso a'r lluniaeth a baratowyd gan y gwragedd. Bu'n fore difyr a bendithiol i bawb.

DIOLCH YN FAWR

Cydnabyddir yn ddiolchgar gyfraniad

JANET A GWYNFOR DAVIES

at gyhoeddi'r Papur y mis hwn

AR Y WE: www.priordy.org (yn cynnwys Papur Priordy)

MANDELA

AR FORE SUL 15 Gorffennaf 2018 seiliwyd yr oedfa yn y Priordy ar fywyd a gwaith Nelson Mandela. Byddem, o fewn dyddiau, ar 18 Gorffennaf 2018, yn dathlu canmlwyddiant geni'r gŵr hynod hwn. Roedd yr oedfa yng ngofal yr aelodau.



Olrheiniwyd ychydig o hanes bywyd Mandela, gan ddangos fel yr arweiniodd y frwydr i ddod â'r drefn apartheid i ben yn Ne Affrica. Treuliodd Mandela 27 o flynyddoedd yng ngharchar cyn cael ei ethol yn arlywydd du cyntaf y wlad ym 1994. Dyfarnwyd iddo Wobr Heddwch Nobel yn 1993, ynghyd â'r arlywydd de Klerk, am sicrhau terfyniad heddychlon i apartheid. Ymwelodd â Chaerdydd ym 1998 a derbyn Rhyddid y Ddinas. Yn ei araith dywedodd: "... Roeddem [pobl de Affrica] yn gwybod fod Mudiad Gwrth-Apartheid Cymru yn siarad ar ran pobl a oedd yn pryderu am ein rhyddid ni cymaint â'u rhyddid nhw eu hunain. Er mor fyr ein hymweliad â Chymru, byddaf yn gallu dweud wrth fy mhobl fod gennym, ym mhobl Cymru, ffrindiau yn wir. Bu farw 5 Rhagfyr 2013 yn 95 mlwydd oed.

Canolbwyntiwyd yn bennaf yn ystod yr oedfa ar dair agwedd ar fywyd a gwaith Masndela, sef

ei bwyslais ar newid yr hunan. Meddai: Hyd nes i mi allu newid fy hunan, doeddwn i ddim yn gallu newid eraill.

ei barodrwydd i faddau a chymodi

ei bwyslais ar fyw bywyd llawn cariad, gobaith a gofal am eraill

Mae'r Beibl yn dangos i ni'n ddigon clir mai'r ffordd orau i Gristion i anrhydeddu Iesu yw ceisio bod yn debyg iddo drwy ddilyn ei esiampl ac ufuddhau i'w orchmynion. Roedd Mandela, fel y gweddill ohonom, yn feidrol ac yn diffygiol ar lawer cyfrif,, Wedi dweud hynny, roedd hefyd yn Grist debyg mewn sawl ffordd. Ymgorfforodd werthoedd y Bregeth ar y Mynydd:

Clywsoch fel y dywedwyd, 'Câr dy gymydog, a chasâ dy elyn.' Ond rwyf fi'n dweud wrthy; carwch eich gelynion, a gweddiwch dros y rhai sy'n eich erlid.

Fel ei Waredwr, roedd yn hyrwyddo heddwch yn hytrach na thrais, yn cofleidio pawb heb eithrio unrhyw rai, yn rhoi pwys ar obaith yn hytrach na diflastod ac yn ceisio cymodi yn lle dial.

A chyn ceisio arwain eraill i newid daeth Mandela i weld mor bwysig yw adfywio'r hunan yn gyntaf.

Cyflwynodd Sulwyn Thomas *Y Gwynfydau* (Mathew 5: 1-12) - adnodau a ddarllenwyd gan Mandela yng Nghynhadledd y Pasg, Eglwys Gristnogol y Seioniaid ar 3 Ebrill 1994, ychydig o wythnosau cyn iddo ddod yn Arlywydd De Affrica. Yn ei araith ddilynol, aeth Mandela ymlaen i sôn am Newyddion Da a Gobeithiol Gŵyl y Pasg ac fel y dewisodd yr Iesu Atgyfodedig nid un hil, nid un wlad, nid un iaith ac nid un llwyth ond dynol ryw yn ei gyfanrwydd. Traddodwyd y weddi gan Chris Lloyd Cafwyd crynodeb o fywyd a gwaith Mandela gan Gareth Gravell ac ymdriniodd Alun Charles â'r gwersi sydd ganddo i'w dysgu i ni.

Roedd Eira Phillips wrth yr organ. Paratowyd y rhaglen PwyntPwer gan Elis Jones. Y casglyddion oedd Steffan a Gareth Jones. Y cyhoeddwr oedd Eirlys Jones.

YN y prynhawn cyflwynwyd yr un oedfa yng Nghapel Bancyfelin gan yr un grŵp.



 EISTEDDFOD GENEDLAETHOL URDD GOBAITH CYMRU SIR GAERFYRDDIN 2021 	
Cynhelir cyfarfod er mwyn sefydlu is-bwyllgorau'r Eisteddfod ar Nos Iau, 20 Medi 2018 yn Ysgol Bro Dinefwr Llandeilo ar yr amseroedd isod	
6.30	7.30
Cerddoriaeth Theatr Dawns Llenyddiaeth	Cerdd Dant Celf, Dylunio, Technoleg Ieuencid Llefaru Cyllid
Croeso i bawb	

MORFYDD OWEN

(1 Hydref 1891- 7 Medi 1918)



Bu marw Morfydd Owen yn ferch ifanc iawn, gan mlynedd yn ôl i'r mis hwn, yn golled aruthrol i gerddoriaeth Cymru, fel yr esbonia'r Dr Rhian Davies, yr arbenigwr ar ei bywyd a'i gwaith, mewn erthygl ar flog *Illuminate*.

Cafodd ei geni yn Nhrefforest, ger Pontypridd, ar 1 Hydref 1891 i deulu hynod o gerddorol - ei mam yn banydd a cantores a'i thad yn ganwr a chyfansoddwr. Amlygodd ddawn gerddorol arbennig o ddyddiau plentyndod cynnar. Enillodd ysgoloriaeth i astudio yn yr Adran Gerdd ym Mhrifysgol Caerdydd cyn symud i'r Academi Frenhinol Cerdd yn Llundain lle daeth i'w chydabod fel un o fyfyrwyr mwyaf rhagorol ei chenhedlaeth.

Cafodd ei phenodi'n aelod o staff yr Academi gan ddechrau ar yrfa fel cantores a chyfansoddwr a oedd yn addo bod yn llawn addewid.

Yn ystod ei chyfnod yn yr Academi daeth yn aelod yng Nghapel Charing Cross a chymysgu yng nghylchoedd dylanwadol Cymry Llundain. Gwnaeth ffrindiau hefyd â rhai o'r *avant-garde* diwylliannol, fel D.H. Lawrence ac Ezra Pound a'r Tywysog Felix Yusupov o Rwsia, oedd â rhan yn y cynllwyn i ladd Rasputin. Cafodd gyfle hefyd gan



bobl fel yr aelodau seneddol Rhyddfrydol David Lloyd George, Syr Henry Haydn Jones a Syr John Herbert Lewis i ymddangos mewn cyngherddau ac i dderbyn comisiynau,

Daeth yn ffrindiau arbennig gyda Syr John Herbert Lewis a'i briod **Ruth Herbert Lewis**, Plas Penucha, Caerwys a Llundain. Roedd Ruth yn un


o arloeswyr cofnodi alawon gwerin Cymru. Bu'r ddwy'n cydweithio gyda Morfydd yn trawsgrifio ac yn trefnu alawon gwerin Cymru o

recordiadau ffonograff Ruth. Ymddirorai hefyd mewn canu gwerin Rwsia. Mae'n debyg mai'i charwriaeth â Rwsiad o'r enw Alexis Chodak fu'r symbyliad iddi gynnig am gymrodoriaeth gan Brifysgol Cymru i astudio canu gwerin Rwsia, Norwy a'r Ffindir ond amharodd y Rhyfel Byd Cyntaf ar ei chyfle i deithio dramor. Daeth ei charwriaeth â Chodak i ben hefyd ac ni chyflawnodd y gwaith ymchwil.

Daeth ei gyrfa addawol i ben yn sydyn gan amddifadu Cymru o un o'i hathrylith cerddorol mwyaf amryddawn. Torrwyd ar addewid Morfydd yn greulon yng ngwanwyn ei bywyd a hynny dan amgylchiadau trist iawn.

Roedd Morfydd nid yn unig yn ferch dalentog ond hefyd yn ferch llawn bywyd ac egni ac yn hynod o brydferth. Roedd yn ymdebygu o ran golygon i un o sêr y ffilmiau.

Mae'n debyg iddi dderbyn ryw bymtheg o gynigion i briodi cyn ei bod yn 21 oed! Yn annisgwyl, ar 6 Chwefror 1917 priododd ag **Alfred Ernest Jones** o ardal Tre-gŵyr, seicdreiddiwr a chofiannydd swyddogol Sigmund Freud. Gwnaeth hynny'n groes i ewyllys llawer o'i ffrindiau. Priodwyd hwy yn Swyddfa Gofrestru Marylebone yn ddarwybod i'w theulu a'i ffrindiau. Ryw ddeufis oedd er iddyn nhw gyfarfod am y tro cyntaf. Fu'r berthynas ddim yn un ddedwydd o gwbl. Bu Morfydd yn agos iawn at roi'r gorau i gyfansoddi, gan fod Jones yn feirniadol iawn o'i gyrfa annibynnol ac yn oeraidd at ei ffydd Gristnogol ac yntau'n Anffyddiwr.



Aeth Morfydd i deimlo'n wael pan oeddent yn aros gyda rhieni'i gŵr ar wyliau yn y Mwmbwls ym 1918. Roedd hi'n dioddef, mae'n debyg, o lid y pendics. Cafodd ei thrin ar yr aelwyd heb fynd i'r ysbyty. Aeth rhywbeth o'i le, efallai gyda'r anasthetig, a bu farw 7 Medi 1918 ychydig cyn ei phen-blwydd yn 27 oed. Mae'r amgylchiadau'r driniaeth hon, y diffyg post mortem a'r oedi cyn cyflwyno papurau ffurfiol i nodi'r farwolaeth yn parhau i godi mwy o gwestiynau nag atebion.



Claddwyd Morfydd mewn seremoni dawel iawn ym mynwent Ystum Llwynarth, ardal a phentref sy'n gorwedd i'r de o Abertawe. Ar ei charreg fedd mae dyfyniad o Faust gan Goethe. Ond

dyw'r garreg ddim yn ddilychwin gan fod dyddiad geni Morfydd yn anghywir arni.

Yn ystod ei bywyd byr datblygodd i fod yn gyfansoddwraig dalentog ynghyd â mezzo soprano o fri. Cyfansoddodd weithiau i gerddorfeydd mawr a bach a chorau, emyn-donau ac unawdau piano. Yn Saesneg mae caneuon Morfydd bron i gyd, er bod '*arogl llên a chanu gwerin Cymru yn gryf ar ei gwaith*'.

Mae'r gerddoriaeth gysegredig a gyfansoddodd yn cynnwys nifer o emyn-donau a rhai anthemau. Mae tri emyn-dôn ganddi yn *Caneuon Ffydd* – Trefforest (143) – enw'r man lle'i ganed, Pen Ucha (286) – enw cartref Ruth Herbert Lewis yng Nghaerwys, a William (442) – enw'i thad.

Ei champwaith yn y Gymraeg yw *Gweddî Pechadur* - trefniant cerddorol trawiadol i'r emyn *O'th flaen, O Dduw, 'rwy'n dyfod'* o waith Thomas William, Bethesda'r Fro (1761-1844) i'w ganu fel unawd.

Mae digwyddiadau drwy gydol y flwyddyn hon yng Nghymru a thu hwnt i gofio am Morfydd Owen ar ffurf cyngherddau, darlithoedd ac arddangosfeydd, llawer ohonynt yng ngofal y Dr Rhian Davies, Cyfarwyddwr Artistig Gŵyl Gregynog. Morfydd Owen oedd testun ei Doethuriaeth (1999) a'i bywgraffiad darluniadol *Never So Pure a*



Sight / Yr Eneth Ddisglair Annwyl (Gomer 1994). Cynhaliwyd rhai digwyddiadau yn Eisteddod Genedlaethol Caerdydd i gofio amdani hefyd. Dan yr enw Morfydd Llwyn-Owen y cafodd ei derbyn i'r Orsedd yn Wrecsam yn 1912 ac o 1914 ymlaen dechreuodd yr enw newydd gael ei weld ar glawr blaen llawysgrifau cerddoriaeth ac ar waelod llythyrau. Rhes o fythynnod ym Mhontdolgadfan, Llanbryn-mair oedd Llwynowen. Yn un o rheiny y ganwyd tad Morfydd. Fel Morfydd Llwyn-Owen y cyfeirir atii yng Nghymru heddiw yn hytrach na Morfydd Owen fel sy'n fanwl gywir.,

Mae dwy nofel Gymraeg wedi'u hysbrydoli gan fywyd a gwaith Morfydd.. Y briodas rhwng Ernest Jones, gŵr academiaidd wedi ymwrthod â chrefydd a Morfydd, merch dalentog sy'n astudio cerddoriaeth ac yn cael ei rhwygo rhwng ei chariad nwydus a'i

dyheadau ysbrydol yw'r cefndir i'r nofel *Seren Gaeth* (1985) gan



Marion Eames. Yna, yn ei nofel *Fel yr Haul* (2014) mae **Eigra Lewis Roberts** yn portreadu chwe blynedd olaf bywyd y gyfansoddwraig ddisglair. Ceir ynddi ddehongliad o fywyd, gwaith a pherthynas Morfydd â'i theulu a'i chyfeillion.

Yn 2017, rhyddhaodd **Elin Manahan Thomas**



(soprano) a Brian Ellsbury (piano) gwyno ddisg o weithiau Morfydd Llwyn Owen yn dwyn y teitl *Portrait of a Lost Icon*.



Bydd seremoni'r mis hwn i osod plac glas yn Punch Lane yn y Mwmbwls, lle bu farw Morfydd ac mae hefyd gynlluniau i drefnu plac glas i'w

osod yn Nhrefforest, man ei geni.

A dyma ddiweddu drwy ddyfynnu englyn hyfryd Alan Llwyd i Forfydd yn ei gyfrol *Cerddi Alan Llwyd – Yr Ail Gasgliad Cyflawn 1990-2015* (Barddas)

**Er gwacáu'i genau o'r gân trwy Angau,
er y trengi syfrdan,
gloyw yw ei hemyn glân
yng ngenau Angau'i hunan.**



CYFUNDEB GORLLEWIN CAERFYRDDIN - CWRDD CHWARTER	
Dydd Iau, 13 Medi 2018 – Siloam, Pont-ar-gothi	
4.00pm: Y Gynhadledd	
7.00pm: Cyfiawnder Pur a Heddwch?	
Bydd dathlu diwedd rhyfel 1914-18 unwaith eto eleni. Ond nid yw'r rhyfel yma ar ben! Anerchiad gyda lluniau gan Alun Lenny	Beth mae'r Beibl yn ei ddweud wrthym ni heddiw am heddwch? Pregeth gan y Parchedig Guto Prys ap Gwynfor
Te rhwng y ddau gyfarfoid	

APÊL MIS MEDI



Yn ystod mis Medi, byddwn yn casglu offer **ail law** a fydd yn cael eu danfon at **Workaid**. Mae **Workaid** yn trwsio'r offer ac yn eu cyflwyno i bobl sydd dan anfantais yn Nwyrain Affrica a'r DU yn bennaf, er mwyn iddynt fedru dysgu sgiliau newydd a dod yn hunangynhaliol.

Mae Workaid yn credu:

1. Bod dysgu pobl i fod yn hunangynhaliol yn holl bwysig
2. Bod ailgylchu adnoddau'r byd yn bwysig
3. Bod gwaith gwirfoddol yn sylfaenol ar gyfer datblygiad positif
4. Mewn cyfartaledd, a bod angen cefnogi pawb

Pe hoffech gefnogi'r apêl hon, hoffwn eich gwahodd i gyfrannu'r canlynol (pethau ail law rydych wedi gorffen â nhw):

Offer garddio o unrhyw fath ee Rhaw, Caib, Trywel llaw, Fforch, Fforch law (gwnewch yn siŵr bod y dolenni'n sownd os gwelwch yn dda), Caniau dŵr, Pibell ddŵr	
Offer gwaith coed o unrhyw fath ee Llif, Morthwyl	Offer plymio, eEe Pibau
Offer adeiladu ee Trywel, Sbrit-lefel	Peiriannau Gwnïo Unrhyw oed gan gynnwys hen rai
Offer Mecanig ee Sbaneri	Teipiadur Llaw dwylo'n unig (dim trydan)



Bydd blychau ym mlaen y capel (cofiwch mai offer ail law sydd eu hangen er mwyn iddynt gael eu hailgylchu, ac nid pethau newydd)



Gweler www.workaid.com am fwy o wybodaeth

Gyfundeb Annibynwyr Gorllewin Caerfyrddin
Trowch at: cyfundeb.com

CYNGERDD DIWRNOD HEDDWCH RHYNGWLADOL

Nos Wener 21 Medi 2018 – 7pm

Capel y Tabernacl, yr Ais, Caerdydd

Côrddydd (Huw Foulkes) ... Côr Heol y March (Eleri Roberts)...

Charlie Lovell-Jones (Ffidil)... Iwan Griffiths (Cyflwynydd)...

Osian Rowlands (*Trefnydd*)

Tocynnau: £10 Croeso i bawb



BORE COFFI McMILLAN

Yn rhan o Fore Coffi Mwy'r Byd

Dydd Gwener 28 Medi 2018

Festri'r Priordy 9.30 tan 12.00

Mynediad am ddim

Stondinau Cynnyrch Cartref a Raffl

Am ragor o wybodaeth, neu i gynnig eich help ac unrhyw gyfraniad at y raffl neu'r stondin cacennau cysylltwch ag Alison Parsons



CYNGERDD DATHLU 60 MLYNEDD

CÔR MEIBION CAERFYRDDIN

Theatr y Lyric Caerfyrddin

Nos Sadwrn 13 Hydref 2018 am 7



Artistiaid

Jessica Robinson
Soprano

Trystan Llŷr Griffiths
Tenor

Corau Meibion
Caerfyrddin, Porth Tywyn, Mynydd Mawr, Dyffryn Tywi,
Dyffryn Aman

Wyn Maskell
Arweinydd

Heather Williams
Cyfeilydd

Garry Owen
Arweinydd y Noson

Brian Jones Castell Howell
Llywydd y Noson

Tocynnau - £12 - Theatr y Lyric neu Dylan Jones



DYLETSWYDDAU GOFALWR / GWRESOGWYR Y MIS



Medi		Hydref	
Gofalwr	Gwresogwr	Gofalwr	Gwresogwr
Catrin Heledd Jones	Gareth Gravell	Philip Jones	Gwynfor Davies



BLODAU



Medi	2		Hydref	7	Betsan James
	9	Eurwen Jones		14	
	16			21	Mari Jenkins
	23	Rhian Jones		28	
	30				



PARATOI'R BWRDD CYMUN



Medi	2	Bore	Eleri Thomas a Delyth Davies
Hydref	7	Hwyr	Alison Parsons a Ffion Parsons



YMWELWYR



Medi / Hydref	Thelma Evans a June Thomas, Eira Phillips ac Eira Jenkins
---------------	---



DARLLENWYR



Medi	2		Hydref	7	
	9	Mwynwen Jones		14	Meinir Jones
	16	Alwen Owen		21	Lleucu Edwards
	23	Meleri Llwyd O'Leary		28	Wyn Tegryn Evans
	30				



CYHOEDDWYR



Medi	Chris Lloyd	Hydref	Adrian Evans
------	-------------	--------	--------------

Y TYST – 50c Cyswllt – Sulwyn Thomas



‘Agor y Gair’



**Cyfres Newydd o Astudiaethau Beiblaidd Cymraeg
yng Nghaerfyrddin**

Boreau Mercher 3,10,17,24 Hydref 2018

11.00 tan 12.00

Canolfan ‘Yr Atom’, Stryd y Brenin, Caerfyrddin

Arweinwyr

Y Parchedig Peter Cutts a'r Parchedig Beti-Wyn James



GŴYL MIRI MEDI

Dydd Sadwrn, 15 Medi 15 am 2

Caeau a Chlwb Rygbi'r Cwins, Abergwili

Prynhawn i deulu'r eglwys. Croeso i bawb o bob oed


Manylion llawn ar Dudalennau'r Ifanc yn y Papur hwn



CWRDD DIACONIAID Y PRIORDY

Nos Fercher, 20 Mehefin 2018 am 7 yn y Festri

***Os oes unrhyw faterion yr hoffech i'r diaconiaid eu trafod, yna rhowch
wybod i'r Ysgrifennydd Gohebol mewn da bryd os gwelwch yn dda***



**COFIWCH AM Y BLWCH STAMPIAU A'R BLWCH CETRYS A'R
BLWCH TOPIAU POTELI PLASTIG YN Y CYNTEDD**

DIOLCH YN FAWR

**Diolch i Beti-Wyn a Philip, Miriam Wyrwoll ac, Ann Evans
am y lluniau'r mis hwn**



**CWRDD DIOLCHGARWCH
CARTREF PLAS Y DDERWEN**

gyda'n Gweinidog

Bore Gwener, 29 Hydref 2018 am 11



YN ein rhifyn diwethaf, rhoesom groeso i drydedd ferch Rhodri a Ming *Davies a aned* ar 6 Mehefin 2018, chwaer fach i Aneira Rui Davies a Cerys Shanshan a wyres i Gwynfor a Janet Davies. Wel, daeth enw'r ferch i law erbyn hyn, sef Eleri Jing. Fel y nodwyd, fe'i ganed ar ddiwrnod pen-blwydd ei thad-cu! A phrofodd teulu arall gyd-ddigwyddiad tebyg flwyddyn yn ôl. Daeth Clive a Margaret Lloyd-Evans yn dad-cu a mam-gu i Owain Iago, plentyn cyntaf Carwyn a Nia ar 29 Awst 2017, a hynny ar ddiwrnod pen-blwydd y tad-cu! Tybed a wyddoch am ragor o gyd-ddigwyddiadau tebyg?!



Wrth sôn am fabanod, braf yw cael llongyfarch Gruffydd Owen, un o blant ein Hysgol Sul, a'i gymar Kairi Falkenberg ar enedigaeth eu plentyn cyntaf, Noa Elis, ar 28 Gorffennaf 2018, Ein dymuniadau da i'r teulu gan gynnwys Modryb Rhian!

Ein llongyfarchiadau i bawb ar eu llwyddiant yn yr arholiadau allanol yr haf hwn: Lefel A - Maredd Owen a Heledd Jones; AS - Sara Llwyd a Caspar Rolant; TGAU BI 11: Steffan Jones, Lleucu Owen, Iestyn O'Leary, Iwan Davies, Ifan Rogers a Rhainnon Jones; TGAU BI 10: Lisa Davies, Lucy Jones, Hanna Medi Lewis, Catrin Owen. Dymuniadau da i'r dyfodol ac i Maredd ym Mhrifysgol Caergrawnt a Heledd ym Mhrifysgol Aberystwyth.

Anfonwn ein cofion cynhesaf at y rhai sydd mewn ysbyty neu sydd newydd fod a chael triniaeth, sef Siân Dalis Davies (sydd bellach yng Nghartref Erw Hir), Tina Charles a Wynne Jenkins. Dymunwn yn dda iddynt a phawb arall sy'n anhwylus y dyddiau hyn.

Cafodd ein plant a'n pobl ifainc hwyl arni ym Mabolgampau MIC unwaith eto eleni a mwynhau'r achlysur yn fawr. Diolch iddynt i gyd am gymryd rhan,

Bu cymaint ar y cyfryngau dros y misoedd diwethaf ond dyma i chi o leiaf ddetholiad ohonynt. Bu Siân Axford ar **Heno** mewn perthynas â gweithgarwch dan nawdd **Erasmus** - prosiect Ewropeaidd y mae'n gyfrifol am ei gydlyn yn Ysgol y Dderwen.



Yn gynnar un bore bu Jac Thomas ar **Radio Cymru 2** pan ofynnwyd iddo beth oedd y peth gorau a ddigwyddodd iddo'n ddiweddar. Atebodd mai ennill y Cwpan dan 10 gyda thim criced Chrwydriaid Caerfyrddin yn 2017 oedd hwnnw! A bu Delyth Davies, Jac a Mali ar **Prynhawn Da** mewn eitem yn ymwneud â hanes siop **Sgidiau'r Cwm** yn y Tymbl. Ar **Raglen Ifan Evans** ar **Radio Cymru** bu Rebecca Hayes yn holi Sulwyn Thomas ac eraill yn Ysbyty Glangwili ar ddiwrnod pen-blwydd y Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol yn 70 oed ynghylch **Radio Glangwili** a'r cyfle arbennig a gaiff ieuenctid a phobl hŷn drwy'r gwasanaeth hwn i

ddarparu adloniant i'r cleifion. Roedd Dewi Snelson ymhlith y rhai a gafodd eu holi ar **Newyddion 9** un noson ynghylch dechrau ailgyflwyno camerâu cylch cyfyng Dyfed Powys ar eu newydd gwedd.



Yn rhifyn yr Eisteddfod o **Golwg** roedd erthygl ddiddorol am neiniau a theidiau a mam-guod a thad-cuod sy'n teithio i Gaerdydd neu'n symud yno i fyw, er mwyn gwarchod yr wyrion. Cafodd Sulwyn a Glenys Thomas eu holi a da oedd deall eu bod yn mwynhau bod yng nghwmni'r wyrion ond hefyd na fyddent 'yn ystyried symud i'r brifddinas i fyw o gwbl!

Ac mae pobl y Priorddy a gymerodd ran yn Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd mewn rhyw ffordd neu'i gilydd yn rhy niferus i'w nodi! Diolch yn fawr i bob un ohonynt am eu cyfraniad Ond rhaid nodi bod gan Fardd y Gadair gysylltiad arbennig â'r Priorddy – mae'i briod yn ferch i Gwyneth Williams, Llambod, sef cyfnither i David Lloyd, un o'n diaconiaid.



Bu nifer yn y Priorddy yn cymryd rhan yn Nhwrnamaint Golff Llyfrau Llafar Cymru'n ddiweddar a llongyfarchiadau mawr i'r Dr Huw Michael ar ddisgleirio drwy ennill tlws yr 'unigolyn gorau'!

I GLO, ein llongyfarchiadau mawr i Sián Dalis Davies ar ei phen-blwydd yn 90 ar 30 Awst 2018. Bu'n Gweinidog yn ei chyfarch ar y diwrnod arbennig ar ein rhan ni oll.



Unrhyw newyddion ar gyfer rhifyn Hydref i'n Gweinidog neu Tina Charles

CYDYMDEIMLAD

Estynnwn ein cydymdeimlad â Miriam Wyrwoll a gollodd ei brawd-yng-nghyfraith, Wynne Jones (brawd y diweddar Barchedig Emyr Huw Jones), ar 25 Gorffennaf 2018. Ein cofion at y teulu oll ar y adeg anodd hwn.

Clywsom fod Thelma Evans, wedi colli'i chwaer yng nghyfraith, Megan Davies, Caerdydd, ar 8 Awst. Cydymdeimlwn â'r teulu cyfan yn eu colled. Ein cydymdeimlad hefyd â Tina Charles a gollodd ei nith agos iawn, Jackie Clemo Richards yn bur ddisymwth yng Nghasnewydd. Meddyliwn am y teulu cyfan yn eu hiraeth.

Trist hefyd oedd clywed am golli Gareth Price, Caerdydd. cyn-reolwr BBC Cymru, ar 7 Awst 2018. Estynnwn ein cydymdeimlad â'i briod Mari, y plant a'r teulu i gyd yn eu colled. Treuliodd tad Mari, sef y diweddar Barchedig W B Griffiths, ddau gyfnod yn weinidog yma yn y Priorddy yn ystod y blynyddoedd 1940-51 a 1958-64.



Y SULLIADUR



Medi	2	<i>Bore</i> <i>Hwyr</i>	Cwrdd Plant a Phobl Ifainc gyda'n Gweinidog Paned neu ddiod oer a bisgïen y tu allan ar ddiwedd yr oedfa a chyfle i weld Geraint Thomas a'r Seiclwyr yn mynd heibio'r capel. Pawb i wisgo rhywbeth melyn Ein Gweinidog	Cymun
	9	<i>Bore</i>	Ein Gweinidog	
	16	<i>Bore</i> <i>Hwyr</i>	Ein Gweinidog <i>Casgliad at y Genhadaeth (mewn amlen gyda'ch rhif a'ch enw ar y blaen)</i> Ymarfer ar gyfer Gŵyl Mawl Medi i'r Oedolion yn y Tabernacl am 7	
	23	<i>Bore</i> <i>Hwyr</i>	<i>Ein Gweinidog</i> Ymarfer ar gyfer Gŵyl Mawl Medi i'r Plant yn y Tabernacl am 10 Ymarfer ar gyfer Gŵyl Mawl Medi i'r Oedolion yn y Tabernacl am 7	
	30	<i>Bore</i> <i>P'nawn</i>	Gŵyl Mawl Medi yn y Tabernacl am 10 Gŵyl Mawl Medi yn y Tabernacl am 2 <i>Manylion y tu mewn</i>	

Hydref	7	<i>Bore</i> <i>Hwyr</i>	Cwrdd Diolchgarwch y Plant a'r Bobl ifainc gyda'n Gweinidog Cwrdd Pregethu a Swper Diolchgarwch gydag Arfon Jones, Caerdydd, a'n Gweinidog.	Cymun
	14	<i>Bore</i>	Ein Gweinidog	
	21	<i>Bore</i> <i>Pnawn</i>	Ein Gweinidog Cinio Dydd Sul yr Ofalaeth yng Ngwesty'r Llwyn Iorwg am 12.30. Manylion y tu mewn.	
	28	<i>Bore</i> <i>Pnawn</i>	Y Parchedig Carys Ann Yn y prynhawn am 2 i'r Ofalaeth yng Nghana: Y Parchedig Carys Ann	

CALENDR Y PLANT A'R BOBL IFAINC								
✓ Ysgol Sul PIP - Pobl Ifainc y Priordy - Dim Ysgol Sul CP – Cwrdd Plant GMM (Y) – Gŵyl Mawl Medi – Ymarfer GMM- Gŵyl Mawl Medi								
Medi					Hydref			
2	9	16	23	30	7	14	21	28
P	✓	✓ PIP	GMM(Y)	GMM	CP	✓	Erw Hir PIP ar Daith	-